## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynnal sesiynau hyfforddi. Bydd hyn yn cynnwys gwerthusiad ar ôl y sesiwn hyfforddi.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer pawb sydd yn gweithio ym maes hyfforddi ac yn gallu cynnal sesiynau yn ddiogel ar eu pen eu hunain.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen eich bod yn gallu adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal asesiad risg o'r lleoliad a'r gweithgareddau cyn cynnal y sesiwn hyfforddi
2. sicrhau bod y dillad, y cyfarpar a'r cyfleusterau sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer y gamp/gweithgaredd yn ddiogel ac yn briodol
3. sicrhau bod y cyfranogwyr yn cael eu cyfarch yn brydlon ac yn teimlo'n gyfforddus ac yn dawel eu meddyliau
4. gwneud y cyfranogwyr yn ymwybodol o'r holl wybodaeth angenrheidiol
5. paratoi'r cyfranogwyr yn gorfforol ac yn feddyliol i gymryd rhan yn y sesiwn hyfforddi
6. nodi anghenion y cyfranogwyr a lefel eu profiad cyn cynnal sesiwn hyfforddi, a hysbysu'r cyfranogwyr o unrhyw resymau pam na ddylent gymryd rhan
7. cynnal sesiwn hyfforddi gan roi cyfarwyddiadau sydd yn glir ac yn cyd-fynd â'r cynllun hyfforddi a gwirio dealltwriaeth y cyfranogwyr
8. rhoi esboniadau ac arddangosiadau clir, sydd yn gywir yn dechnegol ac yn briodol i anghenion a lefel profiad y cyfranogwyr
9. defnyddio dulliau hyfforddi a gweithgareddau priodol i ddatblygu perfformiad y cyfranogwyr
10. sicrhau bod y sesiwn hyfforddi yn cyflawni cydbwysedd rhwng gweithgareddau ymarferol a chyfarwyddiadau yn unol ag anghenion y cyfranogwyr
11. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill yn ystod y sesiwn hyfforddi
12. cadw at yr amseru a gynlluniwyd ar gyfer y sesiwn hyfforddi
13. arsylwi perfformiad y cyfranogwyr tra'n cynnal y sesiwn hyfforddi a nodi cryfderau a gwendidau
14. rhoi adborth i'r cyfranogwyr mewn ffordd glir a chadarnhaol
15. addasu'r cynllun hyfforddi i ymateb i anghenion newidiol y cyfranogwyr a'r amgylchedd yn ystod y sesiwn hyfforddi
16. dod â'r sesiwn hyfforddi i ben gan ddefnyddio gweithgareddau sydd yn ddiogel ac yn effeithiol ac yn unol â lefel profiad y cyfranogwyr
17. rhoi digon o gyfle i'r cyfranogwyr roi adborth ar y sesiwn hyfforddi a nodi eu hanghenion pellach
18. hysbysu'r cyfranogwyr o amser, lleoliad a chynnwys sesiynau hyfforddi pellach ac unrhyw baratoadau sydd eu hangen

19. goruchwylio ymadawiad y cyfranogwyr mewn ffordd sydd yn briodol i'r sefyllfa gan roi sylw dyledus i'w diogelwch
20. datgysylltu a storio cyfarpar yn ddiogel ac yn unol ag arfer da, gan adrodd am unrhyw niwed
21. gadael y lleoliad mewn cyflwr derbyniol ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol
22. cadw cofnodion o gynnydd y cyfranogwyr
23. ystyried adborth ar y sesiwn hyfforddi gan y cyfranogwyr ac eraill sydd yn gysylltiedig yn llawn ac addasu'r cynllun hyfforddi a'r dulliau cyflwyno fel y bo'n briodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. arferion iechyd a diogelwch derbyniol cyfredol ar gyfer y gamp/gweithgaredd a sut i gynnal asesiad risg o'r lleoliad a'r gweithgareddau a gynlluniwyd
2. gofynion y gamp/gweithgaredd o ran dillad, cyfarpar a chyfleusterau
3. y côd moeseg ac ymddygiad derbyniol cyfredol ar gyfer y gamp/gweithgaredd
4. y rheolau a/neu'r rheoliadau cyfredol ar gyfer y gamp/gweithgaredd
5. y technegau, sgiliau a'r tactegau derbyniol cyfredol ar gyfer y gamp/gweithgaredd
6. y gweithgareddau, cyfarwyddyd a'r dulliau hyfforddi derbyniol cyfredol ar gyfer y gamp/gweithgaredd
7. egwyddorion a thechnegau paratoadau corfforol a meddyliol ar gyfer y gamp/gweithgaredd fel y diffiniwyd gan y diffiniad technegol o'r gamp/gweithgaredd
8. pwysigrwydd asesu anghenion a lefel profiad y cyfranogwyr a defnyddio hyn fel man cychwyn ar gyfer sesiynau hyfforddi
9. y rhesymau pam nad yw'n briodol i gyfranogwr posibl gymryd rhan yn y sesiwn, ac asiantaethau y gellach gyfeirio pobl ag anghenion penodol atynt
10. y rhesymau dros ddefnyddio gweithgareddau penodol mewn sesiwn a sut i gael cydbwysedd rhwng gweithgaredd, cyfarwyddyd a hyfforddiant fel y bo'n briodol i lefel profiad cyfranogwyr
11. trefniadaeth effeithiol grwpiau
12. y ffordd y mae cyfranogwyr yn dysgu ac yn datblygu sgiliau
13. sut i roi adborth i'r cyfranogwyr a sut i ddewis yr amser iawn i wneud hynny
14. sut i addasu cynlluniau hyfforddi mewn ymateb i berfformiad cyfranogwyr
15. sut i addasu cynlluniau hyfforddi i ddarparu ar gyfer amodau amgylcheddol gwahanol a newidiol
16. seicoleg perfformiad fel y diffinnir gan y diffiniad technegol
17. ffisioleg perfformiad fel y diffinnir gan y diffiniad technegol
18. pryd i gynnwys hyfforddwyr neu gynorthwywyr eraill
19. gweithgareddau addas y gellir eu defnyddio i ddod â sesiynau i ben yn ddiogel ac yn effeithiol
20. pwysigrwydd archwilio cyfarpar ac adrodd am unrhyw niwed
21. sut i gadw cofnodion
22. pwysigrwydd cael adborth am y sesiwn hyfforddi gan gyfranogwyr ac eraill a'i

ddefnyddio i werthuso a gwella eich perfformiad eich hun
23. eich cyfrifoldeb o ran iechyd a diogelwch

## Geirfa

Gwybodaeth angenrheidiol:

- cyfleusterau
- gweithdrefnau brys
- rheolau a disgwyliadau
- amcanion ar gyfer y sesiwn

LANCS83

Cynnal sesiynau hyfforddi

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCU128 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwyliwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau, Cadwraeth Amgylcheddol, Rheoli Pysgodfeydd |
| **Geiriau Allweddol** | hyfforddi; sesiynau; gweithgareddau; ymddygiad |